# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

**RHAN 3**

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

**PENNOD 2**

MANWERTHWYR TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

*Cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin*

PROSPECTIVE

**30 Dyletswydd i gynnal cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin**

(1) Rhaid i'r awdurdod cofrestru gynnal cofrestr o bersonau sy'n cynnal busnes tybaco neu nicotin mewn mangre yng Nghymru ("y gofrestr").

(2) Mae'r awdurdod cofrestru at y diben hwn yn berson a bennir felly mewn rheoliadau.

(3) At ddibenion y Bennod hon ystyr "busnes tybaco neu nicotin" yw busnes sy'n ymwneud â gwerthu drwy fanwerthu dybaco neu bapurau sigaréts neu gynhyrchion nicotin.

(4) Rhaid i bob cofnod yn y gofrestr mewn cysylltiad â pherson sy'n cynnal busnes tybaco neu nicotin ddatgan—

(a) enw a chyfeiriad y person;

(b) cyfeiriad pob un o'r mangreoedd lle y mae busnes tybaco neu nicotin yn cael ei gynnal gan y person hwnnw;

(c) a yw'r person yn gwerthu—

(i) tybaco neu bapurau sigaréts,

(ii) cynhyrchion nicotin, neu

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 30 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(iii) unrhyw gyfuniad o'r eitemau hynny,

yn y mangreoedd hynny;

(d) yn achos mangre sy'n strwythur symudol, stondin, pabell neu gerbyd, enw pob awdurdod lleol y mae'r busnes yn cael ei gynnal yn ei ardal.

(5) At ddiben is-adran (4)(a), enw a chyfeiriad person yw—

(a) yn achos unigolyn—

(i) enw'r unigolyn ac, os yw'n wahanol, enw masnachu'r unigolyn, a

(ii) cyfeiriad man preswylio arferol yr unigolyn;

(b) yn achos cwmni—

(i) ei enw ac, os yw'n wahanol, ei enw masnachu, a

(ii) cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig;

(c) yn achos partneriaeth ac eithrio partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig—

(i) enw pob partner ac, os yw'n wahanol, enw masnachu'r bartneriaeth, a

(ii) cyfeiriad man preswylio arferol pob partner;

(d) yn achos partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig—

(i) ei henw cofrestredig ac, os yw'n wahanol, ei henw masnachu, a

(ii) cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig.

(6) Caiff y gofrestr gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n wybodaeth o ddisgrifiad y mae'n ofynnol, drwy reoliadau o dan adran 31(3)(b), ei chynnwys mewn cais i gofrestru.

(7) At ddibenion y Bennod hon—

(a) mae person wedi ei gofrestru os yw enw'r person wedi ei gofnodi yn y gofrestr, ac mae ymadroddion cysylltiedig eraill i gael eu dehongli yn unol â hynny;

(b) mae cyfeiriadau at gofnod person yn y gofrestr yn gyfeiriadau at y cofnod sy'n ymwneud â'r person hwnnw yn y gofrestr.

(8) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) bennu mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cofrestru.

(9) Yn achos mangre sy'n strwythur symudol, stondin, pabell neu gerbyd, mae'r cyfeiriad sydd i gael ei gofnodi yn y gofrestr yn unol ag is-adran (4)(a) i gael ei drin fel cyfeiriad y fangre at ddiben is-adran (4)(b).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 30 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 30 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2